Cenn@d

IONAWR 5 2022 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 45

# Cofio Desmond Tutu

Gyda chwithdod y daeth y newyddion trist am farwolaeth Desmond Tutu ar 26 Rhagfyr, 2021, ac yntau'n 90 oed. Ef, heb os, oedd ffigwr Cristnogol mwyaf dylanwadol ein cyfnod, gan gyfrannu at stori wleidyddol a Christnogol ein byd. Diolchwn am ei gyfraniad enfawr: fel llais gobeithiol ynghanol anobaith, fflach o oleuni ynghanol tywyllwch – a hynny'n grefyddol, yn gymdeithasol, yn wleidyddol ac yn foesol – ac am ei ymdrechion i geisio cyfiawnder i holl bobl Dduw. Cyflwynwyd llu o deyrngedau iddo ar y gwahanol gyfryngau. Yma mae Aled Davies yn ceisio crynhoi rhai o'r sylwadau hynny, yn ogystal â rhai o eiriau cofiadwy Tutu ei hun.


Cafwyd cyfle i groesawu Desmond Tutu i Gymru ar sawl achlysur, a diolchwn am y cysylltiad clòs fu rhyngom. Fe'i cofir am ei wyleidd-dra a'i ostyngeiddrwydd, ac am ei allu i uniaethu â'r tlawd a'r gorthrymedig, ac am ei hiwmor, ei wên a'i ddireidi. Pan oedd yn Esgob Johannesburg, dewisodd fyw yn ei gartref yn Soweto ar gyrion y ddinas, yn hytrach nag yn y palas moethus oedd wedi ei fwriadu i'r 'esgob'.

Wrth gofio amdano, rhannodd Siôn Aled Owen yr englyn hwn:

Hwn oedd, flynyddoedd y nos, – yn gannwyll;
hyd gynwawr ei achos
ei ffydd fu'n goleuo'r ffos.
A'r wawr? Rhy hir fu'r aros.

Offeiriad Anglicanaidd o Dde Affrica ac archesgob Capetown oedd Desmond Mpilo Tutu (7 Hydref 1931–26 Rhagfyr 2021). Ganed ef yn Klerksdorp yn nhalaith Transvaal, yn aelod o grŵp ethnig y Xhosa. Ef oedd archesgob croenddu cyntaf yr Eglwys Anglicanaidd. Daeth i amlygrwydd fel ymgyrchydd yn erbyn apartheid, ac yn 1984 dyfarnwyd Gwobr Heddwch Nobel iddo.

Wedi i apartheid ddod i ben, bu ganddo ran amlwg yn y Comisiwn Gwirionedd a Chymod yn Ne Affrica. Bu hefyd yn feirniadol o ddiffyg ymateb llywodraeth



Llun: Benny Gool / Wikimedia Commons

De Affrica i broblemau hawliau dynol yn Zimbabwe dan Robert Mugabe. Rhwng 1985 a 1988 bu'n Archesgob Lesotho, gwlad y mae gan Gymru gysylltiad clòs â hi.

Ar ei ymweliadau â Phrydain, bu'n barod i herio'r llywodraeth dro ar ôl tro. Yn 1989, yn ystod ei ymweliad â Birmingham, cyfeiriodd yn ddiflewyn-ar-dafod at annhegwch y sefyllfa lle ceir nifer anghyfartal o bobl dduon mewn carchardai yn y gwledydd hyn. Bu'n feirniadol iawn o Tony Blair, Theresa May, David Cameron a Boris Johnson yn eu tro am iddyn nhw wrthod gweithredu sancsiynau masnachol yn erbyn Israel oherwydd eu bod yn gorthrymu'r Palestiniaid; disgrifiwyd hynny gan Tutu ei hun fel ffurf ar apartheid.

Bu hefyd yn ddylanwad mawr ar nifer o wleidyddion ac arlywyddion. Wrth gofio amdano, dywedodd Barack Obama, cyn-Arlywydd yr Unol Daleithiau, y bydd yn ei gofio fel 'mentor, ffrind a chwmpawd moesol'. Wrth roi teyrnged iddo ar raglen newyddion y BBC, dywedodd Aled Edwards, Prif Weithredwr Cytûn, ei fod yn ddyn cwbl arbennig ac arloesol.

### Ymweliadau â Chymru

Bu i Desmond Tutu ymweld â Chymru ar sawl achlysur. Cofir yn fyw iawn am ei anerchiad yng Ngŵyl Teulu Duw yn Llanelwedd yn 1986, lle daeth dros 5,000 o bobl ynghyd i wrando arno. Daeth yn ôl eto yn y 1990au ar wahoddiad Esgobaeth Tŷ Ddewi, gan annerch mewn oedfa arbennig ar faes y sioe yng Nghaerfyrddin.

Roedd ei ymweliad olaf â Chymru yn 2012, pan dderbyniodd wahoddiad gan y Prif Weinidog Carwyn Jones i ddod i Gaerdydd i ddathlu deng mlynedd o waith Undeb Affrica, lle gwelir cydweithio rhwng nifer o elusennau yng Nghymru i sicrhau cyfiawnder yn Affrica. Diolchodd Tutu i drigolion Cymru am eu rhan nhw yn hanes rhyddhau De Affrica o afael apartheid. Yn ystod ei ymweliad yn 2012, siaradodd â staff Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn Llantrisant ar ofal brys Uganda; aeth i Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yng Nghaerdydd, sydd â chysylltiadau â Lesotho, ac annerch cynrychiolwyr yn Nheml Heddwch y ddinas fel gwestai i'r Prif Weinidog.

Cofia Merfyn Jones, cyn-ganghellor Prifysgol Bangor, ei gyfarfod ar achlysur cyflwyno Doethuriaeth er Anrhydedd iddo. Roedd yr achlysur yn un o brofiadau bythgofiadwy bywyd pan gyfarfu â'r Archesgob a'i wraig mewn seremoni oedd yn cynnwys Syr David Attenborough, y diweddar Rhodri Morgan a'r diweddar Syr John Meurig Thomas.

Fe'i cofir am ei ddweud cryno a bachog, a dyma ambell ddyfyniad ganddo:

“Mae'r sawl sy'n dewis bod yn ddiduedd mewn sefyllfa o anghyfiawnder wedi dewis ochri gyda'r gormeswr.”

“Gwnewch ychydig bach o ddaioni lle bynnag rydych chi; y darnau bach hynny o ddaioni wedi'u rhoi at ei gilydd sy'n concro'r byd.”

“Mae crefydd fel cyllell: gallwn naill ai ei defnyddio i dorri bara, neu ei defnyddio i drywanu rhywun yn ei gefn.”

O'r seidin
CC–OC
Tudalen 4

Tywysog Tangnefedd
mewn Byd o Ryfeloedd
Tudalen 6

Dyma gyfarfod hyfryd iawn
'Yng nghyngor Tri yn Un'
Tudalen 8

# ‘Gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad’

## Deunyddiau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol

Yn arferol mae deunyddiau’n cael eu paratoi mewn tair iaith ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol gan yr Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, sef yn Gymraeg, Saesneg a Gaeleg yr Alban. Eleni, am y tro cyntaf, fe fydd deunyddiau’n cael eu paratoi ym mhedair iaith frodorol y Deyrnas Unedig ac yn cynnwys yr Wyddeleg hefyd.

Paratowyd y deunyddiau, sy’n seiliedig ar ymweliad y Doethion o’r Dwyrain â Jerwsalem a Bethlehem, gan eglwysi’r Dwyrain Canol. Fe’u paratowyd â gwasanaethau lle mae pobl yn cael eu cynnull ynghyd mewn golwg, ond fe obeithir y bydd eglwysi a grwpiau’n gallu addasu’r deunydd i’w ddefnyddio ar-lein hefyd, os bydd angen.

Ar gyfer 2022 fe fydd y deunyddiau ar gael i’w lawrlwytho yn unig (ar y ddolen hon neu’r cyfeiriad gwe hwn: https://ctbi.org.uk/week-of-prayer-for-christian-unity-2022/)

Yn draddodiadol, fe gedwir yr Wythnos Weddi o’r 18fed i’r 25ain o Ionawr – yr wyth niwrnod rhwng gwyliau Sant Pedr a Sant Paul. Ond mae modd rhoi sylw i’r deunyddiau ar unrhyw adeg, ac mae rhai ardaloedd yn gwneud hynny ar y Pentecost.

### Cyflwyniad

Stori gyfarwydd inni yw’r un am y Doethion yn ymweld â’r teulu sanctaidd ym Methlehem. Mae’r Doethion wedi eu gweld yn eu tro fel symbol o amrywiaeth y byd – gwahanol grefyddau a diwylliannau – sy’n dod i dalu gwrogaeth i’r Crist-blentyn. Gellir gweld y stori felly’n cynrychioli’r undod i’r cyfan a grëwyd y mae Duw yn ei ddymuno.

Paratowyd deunyddiau’r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2022 gan eglwysi’r Dwyrain Canol, eglwysi â’u hanes wedi ei nodweddu gan wrthdaro ac anghydfod, ei liwio gan waed a’i dywyllu gan anghyfiawnder a gorthrwm – ac



mae hyn yn dal yn wir heddiw. Cyflwyna Cristnogion y Dwyrain Canol yr adnoddau hyn yn ymwybodol bod y byd yn rhannu llawer o’r poenau a’r anawsterau y maen nhw’n eu profi, gan ddyheu am oleuni i arwain y ffordd at Waredwr, yr hwn sy’n oleuni sy’n trechu tywyllwch.

Mae gwasanaethu’r Efengyl heddiw yn golygu ymrwymiad i’r ddynolryw, yn enwedig y tlotaf, y gwannaf a’r rhai sydd ar y cyrion. Gofynnir am dryloywder ac atebolrwydd gan yr eglwysi wrth iddyn nhw ymwneud â’r byd a chyda’i gilydd. Golyga hyn fod angen i eglwysi gydweithio er mwyn lleddfu anghenion y trallodus, croesawu’r rhai a ddadleolir, cario beichiau’r rhai dan eu pwn, ac adeiladu cymdeithas gyfiawn a gonest. Mae hon yn alwad ar eglwysi i weithio gyda’i gilydd fel bydd pobl ifanc yn gallu adeiladu dyfodol daionus yn ôl bwriad calon Duw, dyfodol lle y gall pob person dynol brofi bywyd, heddwch, cyfiawnder a chariad.

### Cymorth Cristnogol

Bob blwyddyn mae Cymorth Cristnogol yn darparu pwyntiau gweithredu ‘Ewch a gwnewch’ ar gyfer pob un o’r myfyrdodau dyddiol – gan glymu â gwaith pwysig Cymorth Cristnogol yn lleddfu effeithiau tlodi a bod yn lladmeryddion cyfiawnder.

### Cyfryngau Cymdeithasol

Gallwch chi ddangos eich cefnogaeth i Undeb Cristnogol drwy bostio negeseuon o undeb a gwybodaeth am eich digwyddiadau ar wal drydar yr Wythnos Weddi dros Undeb Cristnogol drwy ychwanegu’r hashtag #wpcuwall i’ch trydariad. Gallwch hefyd ddod o hyd i ddiweddariadau am yr Wythnos Weddi drwy ddilyn yr hashtag #wpcu2022.



# Gobaith – dal ati … edrych allan … edrych i fyny

Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd! Gan ddymuno pob bendith, hapusrwydd a nerth i chi yn ystod 2022.

Wrth ddechrau pennod newydd, fel petai, hoffwn ddiolch o galon i chi i gyd am eich ymroddiad a'ch gwaith diflino dros Achos Duw. Rydyn ni'n byw mewn adeg mor heriol ar sawl lefel, ond gyda'n gilydd a thrwy ymddiried yn Nuw fe ddown ni drwy hyn eto.

### Dal ati

Wrth edrych ymlaen yn awr (rhaid edrych ymlaen bob tro) at 2022, rhaid sicrhau tri pheth. I ddechrau, dal ati fel Cristnogion i wasanaethu, gwasanaethu Duw trwy wasanaethu ein cyd-ddyn. Rydyn ni yma fel Eglwys Dduw, fel teulu Iesu, i wasanaethu wrth garu, wrth wrando, wrth gefnogi a chydymdeimlo.

Gadewch i ni feddwl am ffordd newydd neu am gyfle gwahanol i fynd ati eleni i wasanaethu o fewn ein cymunedau.

Jonathan Sacks ddywedodd: 'The paradox of volunteering is that the more we give, the more we are given.'

### Edrych allan

Bu farw un o'm hoff actorion llwyfan cyn y Nadolig, sef Antony Sher. Cefais y fraint o'i weld mewn sawl rôl dros y blynyddoedd ac roedd pob perfformiad yn gofiadwy ac yn gelfydd. Dywedwyd mewn un deyrnged iddo yn y wasg: 'Sher had an affinity with outsiders and with those ill at ease with themselves.' Dyna oedd yn wir wrth ddarllen yr Efengylau am Iesu: y ffordd yr oedd yn gallu cyffwrdd a chofleidio eraill yr oedd cymdeithas wedi'u gadael ar ôl.



### Edrych i fyny

Eleni, boed i ni beidio anghofio neu gymryd yn ganiataol pa mor bwysig ac allweddol yw gweddïo. Ar adegau, mae'n anodd gweddïo – diffyg amser, diffyg awydd, neu ddim ond am nad ydym yn yr hwyliau iawn. Ond rhaid dod o hyd i ffordd o weddïo a gwneud hynny'n gyson. Mae pwyslais bob mis Ionawr ar beth rydyn ni'n ei fwyta, fod angen colli pwysau, yfed llai ond yfed mwy o ddŵr, gofalu am y corff gyda mwy o gerdded ac ymarfer corff. Ond gadewch i ni roi'r un sylw i'r enaid, a'r angen i ofalu amdano.

Gweddi, wrth gwrs, yw'r maeth ar gyfer hyn. Fe ofynnwyd i rywun rywdro: 'Beth wyt ti'n ei elwa neu'n ei ennill wrth weddïo'n gyson ar Dduw?'

'Dim byd,' oedd yr ymateb, 'ond gad i fi sôn am yr holl bethau dwi wedi'u colli – dicter, ego, trachwant, balchder, ansicrwydd ac ofn.'

Yn olaf, a gawn ni fynd ati i obeithio y flwyddyn hon – gobeithio, nid ar ddechrau'r flwyddyn fel hyn yn unig, ond trwy gydol y misoedd sydd o'n blaenau. Fel y dywedodd Maya Angelou, 'Y peth braf am obaith yw y gallwch ei roi i rywun arall sydd ei angen yn fwy na chi, ac fe welwch nad ydych wedi colli eich gobaith chi o gwbl.'

Edrychwn ymlaen at weithio eleni ac annog aelodau Eglwys Bresbyteraidd Cymru wrth i ni gefnogi apêl bum mlynedd Cymorth Cristnogol, sef Hadau Gobaith. Canolbwynt yr ymgyrch fydd mynd i'r afael â'r problemau mae Kenya (er enghraifft) yn eu hwynebu oherwydd effeithiau newid hinsawdd. Dwi'n bwriadu cerdded 70 km ar draws Cymru: 5 km ym mhob Henaduriaeth, ac yn edrych ymlaen i gwrdd â chi i gyd a chydgerdded â chi i godi ymwybyddiaeth am yr apêl. Diolch o flaen llaw am unrhyw nawdd! Mae rhaglen y daith ar fin cael ei chwblhau ac rwy'n hynod ddiolchgar am bob cydweithrediad.

Eleni, gadewch i ni ehangu apêl yr Eglwys a dangos ein bod ni'n enwad sy'n berthnasol i fywydau pobl ymhell ac agos.

Y Pab Ffransis sy'n ein rhybuddio: 'Keep us from becoming a museum church, beautiful but mute, with much past but little future.'

Gyda'n gwasanaeth, gweddi a gobaith, gallwn ddangos bod yna ddyfodol i Eglwys Bresbyteraidd Cymru a neges Iesu Grist yn 2022 a thu hwnt.

*Evan Morgan*
*Llywydd Cymanfa Gyffredinol*
*Eglwys Bresbyteraidd Cymru*

# Troi'r ddalen

Wrth i mi baratoi'r ysgrif hon mae paratoadau'r Nadolig o'm cwmpas ymhobman. Mae yna anrhegion heb eu lapio na'u dosbarthu, a chardiau Nadolig heb eu hysgrifennu Ac rwy'n ymwybodol y bydd y Nadolig wedi mynd heibio mewn amrantiad ac y byddwn wedi croesi'r trothwy i 2022. Felly, yn y lle cyntaf, carwn ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch.

Mae 'blwyddyn newydd' bob amser yn cyflwyno cyfleoedd a heriau newydd i ni. Wedi dweud hynny, mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod yn un o'r rheiny sy'n casáu nos Galan. Fydda i byth am aros i fyny'n hwyr i groesawu'r Flwyddyn Newydd. Dwi'n eitha bodlon mynd i fy ngwely ac osgoi'r nostalgia o fwrw trem yn ôl dros y flwyddyn a aeth heibio. Dwi'n ffeindio'r holl beth ychydig bach yn ddigalon. Ond dwi wrth fy modd gyda dydd Calan ei hun, a ffresni a phosibiliadau'r flwyddyn yn agor o'n blaenau. Ar ôl noson dda o gwsg, dwi'n codi'n fore ac yn barod i wynebu'r flwyddyn newydd. Ac mae'n debyg y byddwch chi, fel minnau, yn addo gwneud yn y well y flwyddyn hon!

Fel Cristnogion, bydd y rhan fwyaf ohonom yn addunedu i fod yn fwy ffyddlon, yn fwy cydwybodol ac yn fwy gweddigar. Mae'n amser gwych o'r flwyddyn i ymddiried ein hunain i'r Arglwydd Iesu Grist ac i gysegru ein hunain o'r newydd i fywyd ein heglwys. Felly, gadewch i mi ofyn tri chwestiwn i chi.

### Wnewch chi ystyried y pethau hyn?

Gallwn edrych yn ôl ar ddechrau blwyddyn ac adnabod daioni Duw a diolch iddo am ei bresenoldeb gyda ni. Bydd rhai ohonom wedi ymddiried yn y Gwaredwr dros sawl degawd bellach, ac yn ystod yr amser hwnnw buom yn ymwybodol o'i agosrwydd yn ein llawenydd a'n tristwch, yn nhroeon yr yrfa, ac yn ein llwyddiannau a'n methiannau. Nid oes raid i'n calonnau ddweud, 'Dwi wedi goroesi' neu 'Fe ddes i drwyddi eto'. Yn hytrach, gadewch i ni ddweud 'Diolch' wrth Dduw.

### Wnewch chi edifarhau?

Mae dweud ei bod yn flin gennym yn ffordd wych o dyfu'n agosach at Dduw. Mae'r amser yma o'r flwyddyn yn gyfle rhagorol i ni archwilio ein calonnau ein hunain a myfyrio ar ogoniant Duw. Pan ddywedwn ei bod yn ddrwg gennym am bechodau'r gorffennol, gallwn hawlio'i addewid o faddeuant. Mae'n adnabod ein defnydd; mae'n cofio mai llwch ydym.

### Wnewch chi ailgysegru ac ymddiried o'r newydd?

Cyn i ni feddwl am addunedau Blwyddyn Newydd fel colli pwysau neu wneud mwy o ymarfer corff, gadewch i ni ystyried ym mha ffordd y medrwn ni ymgysegru ac ymroi o'r newydd i bethau a esgeuluswyd gennym – yn arbennig ein teuluoedd a'n heglwysi. Pan ddangoswn ein cariad a'n ffyddlondeb i'n heglwys, dangoswn i'r byd beth mae bod yn Gristion yn ei olygu.

*Christine Hodgins*
*Llywydd Is-bwyllgor y Chwiorydd*
*Eglwys Bresbyteraidd Cymru*

# O’r seidin CC–OC

Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch, ddarllenwyr brwd. Ydy – y mae’r flwyddyn newydd wedi dod, diolch Iddo.

### CC

Maddeuwch y gair mwys (*pun*) yn y teitl, ond dowch gyda mi ar daith fer i’r gorffennol i gychwyn, i’r cyfnod CC – Cyn Covid. Roedd y cyfnod hwnnw yn un lled gyfforddus i eglwysi Cymru a’u harweinyddion. Roedd yr olwynion enwadol yn troi, a bywyd eglwysi lleol yn treiglo ’mlaen fel arfer drwy galendr pob Sul, pob Cwrdd Chwarter, Synod a Henaduriaeth, Undeb a Chymanfa Gyffredinol. Roedd yn lled rwydd cael pobl yn barod i wasanaethu ar y Sul a gweinyddu sacramentau, a chynnal ein hysgolion Sul. Bu’n gyfnod braf iawn ar lawer ystyr, gyda phobl dda Duw yn ymroi’n egnïol i’r gwaith a’r genhadaeth yn lleol.

### Cymylau CC

Ond nid oedd y cyfnod CC heb ei gymylau uwchben, na’r gwyntoedd croesion yn ymegnïo. Gwelsom anawsterau’n dechrau codi gyda chynulleidfaoedd ffyddlon yn heneiddio a dyfodol ansicr iawn i’r lleoedd a fu’n fagwrfa i’r ffydd ac yn ffynnon gobaith i lawer ohonynt. Collasom sawl ysgol a siop a swyddfa bost leol, a phrin y bu’r lleisiau a godwyd yn erbyn peth felly. Erbyn hyn mae ein capeli’n wynebu’r un sefyllfa. Un ffactor yw oedran cynulleidfaoedd. Ffactor arall sydd yn ychwanegu at dranc ambell addoldy erbyn hyn yw amharodrwydd yn y to iau (os ydyn nhw’n bresennol) i dderbyn y cyfrifoldeb o fod yn swyddogion mewn eglwys a chapel. Heb arweinwyr lleol, yna mae’r dyfodol yn lled dywyll i bawb.

### Dyled

Mae gennym ddyled anfesuradwy i’r diaconiaid a’r blaenoriaid sydd wedi rhoi oes o wasanaeth i’w heglwysi lleol. Buont



Capel Rhos-y-gad

yn esiampl arbennig inni fel aelodau, ac ychydig ohonom oedd yn dirnad maint y cyfrifoldeb, y gwaith, y paratoi a’r gofalu a weinyddid ganddynt. Dydy’r dywediad, ‘Da, was da a ffyddlon’ prin yn cyffwrdd â maint eu hymroddiad a’u ffyddlondeb i’w capel. Lle mae dechrau diolch, dwedwch?

### Uno

Rwy’n cofio arwain trafodaethau i geisio uno eglwys fach yn y wlad gyda chapel mewn pentref cyfagos. Roedd y diweddar Mr Tom Jones yn flaenor ffyddlon yno. Ef oedd yr olaf i fod eisiau gweld drws Capel Cefn Bach yn cau am y tro olaf. Ond roedd yn ddigon hirben i weld nad oedd yna ffordd ymlaen mwyach ond trwy uno a chreu Eglwys Unedig Rhos-y-gad. Daeth y ddau ohonom yn gyfeillion mynwesol ac wrth sgwrsio ag ef ar yr aelwyd fe ddois i ddeall y byddai, yn ôl ei arfer, yn parhau i godi’r ffôn ar aelwydydd yr eglwys yn wythnosol i’w hysbysu am drefniadau’r Saboth oedd yn dilyn, gan eu gwahodd yn gynnes iawn i bresenoli eu hunain. Gwnaeth hyn yn ddi-feth, a hynny er gwaetha’r ffaith mai dim ond y ffyddlon rai fyddai’n dal i ddod o Sul i Sul.

### Dagrau a gras

Wrth gwrs, ar ddiwrnod y gwasanaeth olaf daeth yna griw i’r Tŷ a chael oedfa fendithiol, er ei bod yn achlysur trist i lawer. Wrth i’r gynulleidfa basio heibio’r sêt fawr ar y terfyn, bu peth rhincian dannedd a bwrw dagrau a mynegi gofid fod y drws ar fin cau. Ymateb grasol, hynaws a charedig yr annwyl Tom Jones, “Wel dyna ni, mae’n rhy hwyr erbyn hyn. ’Nes i ofyn ichi droeon i ddod, a dyma ni wedi cyrraedd pen y dalar heddiw.” Wedi’r oedfa, fe ofynnais iddo tybed a fyddai’n caniatáu i mi droi’r allwedd yn y drws. “Na,” atebodd, “dim diolch yn fawr i chi, ’nghyfrifoldeb i yw hynny.” Ac fe wnaeth gyda deigryn o ddiolchgarwch yn ei lygaid am yr hyn a gafwyd, gan addo i mi y byddai’n fy ngweld yn yr oedfa yn Rhos-y-gad y Sul canlynol.

### Hiraeth?

Erbyn i chi ddarllen yr erthygl hon bydd tymor fy llywyddiaeth gyda Phresbyteriaid ac Annibynwyr Môn wedi dod i ben. Bu’n gyfnod heriol a gwahanol iawn – cyfnod a ddechreuodd cyn i’r Covid daro ac sydd wedi parhau drwy’r cyfan. Gwelwyd nifer o gapeli’n cynnal oedfa i ddwyn yr achosion i ben. Bu’r cyfarfodydd hynny’n rhai teimladwy a hiraethus iawn i amryw o’r gweddill ffyddlon, a decini y bydd yna sawl achos yn dilyn eu llwybr yn 2022.

### Gobaith

Ond nid ydym heb obaith, na gweledigaeth na ffydd yng nghariad rhagluniaethol Duw. Mae’r Gair yn ein hatgoffa na adawodd Duw ei hun yn ddi-dyst mewn unrhyw genhedlaeth. Erbyn hyn rydym yn gobeithio y bydd yna gyfnod newydd ar fin gwawrio yn hanes ein heglwysi a’u gweithgarwch, mewn Cyfnod OC – Ôl Covid.

Bydd eglwysi a chapeli, enwadau a chyfundrefnau yn gorfod newid er mwyn wynebu’r dyfodol. Ond gyda Duw y mae pob peth yn bosibl; gyda chymorth Duw, fe all pobl gydweithio a chydaddoli. Mater o ewyllys ydy o – a bydd yn rhaid i’r rheiny sy’n mynnu dal gafael ar raffau eu pebyll enwadol, am ba reswm bynnag, ddechrau llacio’r gafael hwnnw er mwyn annog pobl i helpu ei gilydd, i oroesi a pharhau’r dystiolaeth. Ymlaen y mae pob Canaan – a does dim iws dal gafael ar yr aradr ac edrych yn ôl yn barhaus. Ddaw dim da o hynny!

*Jim Clarke*

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
Sul, 9 Ionawr, am 7:30yh (ailddarlledir y Sul canlynol am 11:30yb)
‘Pantycelyn’ – Yr Athro Derec Llwyd Morgan fydd yn cloriannu mawredd William Williams, Pantycelyn, a Delyth Morgans Phillips fydd yn trafod apêl fythol ei emynau.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
Sul, 9 Ionawr, am 7:30yb a 4:30yh
Euros Rhys Evans sy’n cyflwyno cyfres am aelodau o’r un teulu sydd wedi cyfrannu tuag at ein hemynyddiaeth. Heddiw, y ddau gefnder T. Hopkin Evans a David Evans sydd dan sylw ganddo.

***Oedfa Radio Cymru***
Sul, 9 Ionawr, am 12:00yp
Gwasanaeth yng ngofal John Pritchard, Llanberis

# Medalau Gee

Yn ystod 2021 cyflwynwyd 22 o fedalau i ffyddloniaid yr ysgol Sul ym mhob cornel o Gymru. Eisoes cafwyd adroddiadau a lluniau 17 o'r medalwyr, ac yma cyfeirir at y pum olaf i dderbyn medalau 2021. Cofiwch fod modd cyflwyno ceisiadau ar gyfer 2022 erbyn hyn. Disgwylir i geisiadau gyrraedd Aled Davies yn ddim hwyrach na 30 Mehefin, a chyflwynir y medalau eleni ym mis Medi yn Llanuwchllyn a Rhydaman.

Bu i dair o ffyddloniaid yr ysgol Sul ym Môn derbyn eu medalau ar aelwyd ym Mhen-y-sarn yn ystod mis Tachwedd. Y tair oedd Iola Margaret Roberts o gapel Jerwsalem, Mynydd Mechell, a Grace Jones ac Olwen Owen o gapel Carmel, Pen-y-sarn. Mae'r tair wedi bod yn hynod weithgar yn eu hysgolion Sul, ac wedi gwasanaethu'n ffyddlon am gyfnod o dros hanner can mlynedd. Mae llawer o blant yr ardal yn ddyledus iawn iddynt am y cyfleoedd a gawsant i gymryd rhan mewn gwasanaethau a drefnwyd ganddynt ar hyd y blynyddoedd. Diolch am ymroddiad diflino'r tair ohonynt.

Mewn oedfa yng Nghapel Soar, Cwm-pen-graig, Pen-boyr, sir Gaerfyrddin, brynhawn Sul, 17 Hydref, cyflwynwyd Medal Goffa Mr a Mrs Thomas Gee i Mr Alan Campden, aelod ffyddlon o ysgol Sul a chynulleidfa'r eglwys ar hyd ei oes. Bu Alan yn weithiwr cymdeithasol yn sir Gaerfyrddin am dros 30 mlynedd cyn ei ymddeoliad. Ar hyd ei oes bu'n selog tu hwnt i holl agweddau bywyd Eglwys Gynulleidfaol Soar, gan gynnwys yr ysgol Sul. Er na fu dosbarth plant ac ieuenctid yn rhan o'r ysgol Sul mewn blynyddoedd diweddar, mae'r dosbarth oedolion yn cwrdd yn ffyddlon o hyd, gydag Alan ymhlith y ffyddlonaf. Bu'n arolygwr a thrysorydd yr ysgol Sul yn ei dro.

Fel rhan o oedfa Nadolig dan ofal criw o bobl ifanc capel Pen-y-bont, sir Gaerfyrddin, cyflwynwyd medal i Lily May Thomas. Roedd hon yn oedfa wedi ei threfnu gan Lily, ond, heb yn wybod iddi hi, cafwyd cryn syrpréis ar ddiwedd y gwasanaeth, pan ymddangosodd Aled Davies o galeri'r capel i gyflwyno'r fedal i Lily. Bu Lily yn athrawes ddiwyd a threfnydd oedfaon plant ac ieuenctid am gyfnod o dros 60 mlynedd, ac yn uchel iawn ei pharch yn yr ardal. Er bod rhai o'r bobl ifanc wedi symud i ffwrdd o'r ardal erbyn hyn, maent yn gwneud ymdrech bob Nadolig i ddod yn ôl ar gyfer cyflwyno'r sgriptiau mae Lily yn eu paratoi ar eu cyfer. Cyflwynwyd tusw o flodau iddi hefyd ar ran y capel a'r ysgol Sul.



Iola Margaret Roberts, Grace Jones ac Olwen Owen yn derbyn eu medalau ym Mhen-y-sarn, Môn



Mr Alan Campden yn derbyn ei fedal gan y Parch Aled D Jones



Yn y llun mae'r criw oedd yn cymryd rhan yn yr oedfa gydag Aled a Lily.

Mae'r ffenest ar gyfer cyflwyno cais am fedalau 2022 bellach ar agor. Ewch i'r wefan i lawrlwytho ffurflen.

# Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

Fel deunydd ar gyfer myfyrdod personol ac astudiaeth grŵp, byddwn yn parhau hyd y Grawys â'r myfyrdodau o'r gyfrol *The Prince of Peace in a World of Wars* gan David Kerrigan.

### 9 Dos o realaeth

**Darllen: Luc 2:22–38**

> Yn awr yr oedd dyn yn Jerwsalem o'r enw Simeon; dyn cyfiawn a duwiol oedd hwn, yn disgwyl am ddiddanwch Israel; ac yr oedd yr Ysbryd Glân arno. Yr oedd wedi cael datguddiad gan yr Ysbryd Glân na welai farwolaeth cyn gweld Meseia'r Arglwydd. (adn. 25–6)

Adeg o lawenydd mawr i rieni'r baban ac i'w deulu ehangach a ffrindiau ydy achlysur geni plentyn. Mae yna eithriadau, wrth gwrs – gall iselder wedi'r geni wneud yr achlysur yn un anodd, a gall y geni ddatgelu anableddau yn y plentyn nad oedd modd eu canfod cyn hynny ac y bydd yn cymryd amser i addasu iddyn nhw. Ond hyd yn oed gyda hynny, mae'r dyfodol yn aros amdano fel llyfr agored, tudalennau glân, yn barod i stori'r bywyd newydd hwn gael ei hysgrifennu'n raddol.

Pan ddaeth Mair a Joseff i'r deml i gyflwyno Iesu gerbron yr Arglwydd, roedden nhw'n llawn diolchgarwch yn ddiamau. Ond wrth gyfarfod Simeon ac Anna, fe roddwyd mewnwelediad newydd iddyn nhw eto am arwyddocâd geni'r plentyn hwn. Unwaith eto, gwelwn rwydwaith gymhleth o ddigwyddiadau yn dod ynghyd yn ôl pwrpasau Duw.

Dywedir wrthym fod Simeon yn ddyn cyfiawn a duwiol, un yr oedd Duw wedi datguddio wrtho y byddai'n gweld 'Meseia'r Arglwydd' yn ystod ei fywyd. 'Dan arweiniad yr Ysbryd' (adn. 27), fe ddaeth un ai i'r deml y diwrnod hwnnw, neu i adnabod y plentyn; a hynny sydd fwyaf tebygol. Cymerodd Simeon Iesu yn ei freichiau a mynegi moliant y gallai yn awr farw mewn hedd, 'oherwydd y mae fy llygaid wedi gweld dy iachawdwriaeth' (adn. 30). Roedd Joseff a Mair wedi 'rhyfeddu at y pethau oedd yn cael eu dweud' am eu plentyn (adn. 33), ond yr oedd bendith Simeon yn cynnwys rhybudd i Mair – 'a thithau, trywenir dy enaid di gan gleddyf' (adn. 35).


Yn bresennol yr un pryd yr oedd Anna, oedd yn byw yng nghyffiniau'r deml. Daeth hi at y teulu fel yr oedd Simeon yn llefaru a dechreuodd hithau hefyd foli Duw a 'llefaru am y plentyn wrth bawb oedd yn disgwyl rhyddhad Jerwsalem' (adn. 38). Ni wyddom a oedd ei chynulleidfa hi'n ehangach na dim ond y teulu, ond fe fyddai amseriad ei geiriau yn dilyn rhybudd Simeon am boen i ddod wedi cynnig peth cysur i Mair a Joseff. Mae'n sicr i'r geiriau a lefarwyd y dydd hwnnw gael eu hychwanegu at y rhai y dywedir amdanynt, 'yr oedd Mair yn cadw'r holl bethau hyn yn ddiogel yn ei chalon ac yn myfyrio arnynt' (Luc 2:19; gw. hefyd Luc 2:51).

Atgoffir ni wrth glywed geiriau Simeon y gallai ymadael yn awr mewn heddwch, y gellir mwynhau heddwch Duw pan nad yw popeth yn yr ardd yn edrych yn hyfryd. Efallai i Simeon freuddwydio am ddydd y byddai gogoniant Israel yn cael ei adfer, pryd y byddai pobl yn tyrru i'r deml i addoli Duw, a phryd y byddai'r gormeswyr Rhufeinig wedi ymadael. Doedd dim golwg bod dim o hynny am ddigwydd yn fuan o gwbl, eto yn y Crist-blentyn yr oedd wedi gweld addewid Duw y byddai hyn yn digwydd, ac yr oedd hynny'n ddigon iddo.

Rydym ninnau hefyd yn byw mewn tymor o addewidion anghyflawn. Gallwn alaru wrth weld ffydd yn Iesu yn treio ar draeth ein cyfnod a'n gwlad, hyd yn oed yn ein teulu ein hunain. Ond, fel Simeon, mae ein gobaith i'w ganfod yng Nghrist ei hun, wrth ei weld fel yr un cyflawnwr addewidion heddiw ag yr oedd pan ddaethpwyd ag ef i mewn i'r deml. Roedd Simeon yn gwybod yn ei ysbryd fod Duw wedi gweithredu mewn modd terfynol, ac er nad oedd y cyfan eto wedi dod i fod, roedd hyder Simeon yn Nuw.

Efallai y gallwn nodi hefyd nad yw heddwch bob amser i'w gael heb boen calon wedi ei thrywanu. Weithiau fe fydd datrysiad i drafferthion bywyd yn ymddangos, ond heb allu dileu'r boen yr ydym eisoes wedi ei phrofi. Cyfraniad Anna oedd annog Mair a Joseff yn hyn i gyd, ac i ddechrau cyhoeddi'r gwirionedd yma i gynulleidfa ehangach. Efallai mai hi oedd yr efengylydd cyntaf.

Gadewch inni ddod â hyn i gyd yn nes at adref. Dydw i ddim yn meddwl imi adnabod yr un person na chafodd ei siâr ei hun o boen i'w dwyn. Mae nifer fawr o ffynonellau i siom, ac ar brydiau maen nhw'n bygwth




ein llethu. Gallant galedu ein calonnau, ein gwneud yn amheus, yn ansicr ynghlylch pwy y gallwn ni ymddiried ynddyn nhw. Nid hynny yn unig, ond gallwn adael i'n hymddiriedaeth yn Nuw ei hun wanio hefyd, oherwydd, er ein bod yn gwybod nad ydy Duw yn un i ymestyn i lawr a gwrthdroi pob achos o bechod dynol, o esgeulustod amlwg, o drychineb naturiol, eto i gyd, rywle yn ddwfn ynom, yr ydym yn flin fod Duw wedi caniatáu i bethau sy'n achosi poen inni ddigwydd.

Rydym wedi gweld o'r dechrau fod yr heddwch a gynigiai Iesu i'w ddisgyblion wedi ei wreiddio yn yr wybodaeth fod Duw yn bresennol. Pan fyddwn yn credu ac yn ymddiried bod Duw efo ni, yna er na ellir datrys y sefyllfa ar hyn o bryd, fe allwn gael nerth i ymddal, i ymgadw ac i gredu bod iachawdwriaeth Duw, hyd yn oed ar gyfer ein bywydau ni ein hunain, yn llaw Duw. Dyma beth a ddysgwn gan Simeon ac Anna. Mewn plentyn bychan diamddiffyn, wedi ei gynnal ym mreichiau cwpl tlawd a gwylaidd, fe welen nhw fod Duw wedi gweithredu'n derfynol o'u plaid.

Rhaid i chi ddarganfod sut mae hynny'n gymwys i'ch bywyd chi. Beth bynnag a wynebwch heddiw, yfory neu yn y blynyddoedd i ddod, bydded ichi wybod bod Duw wedi gweithredu a rhyw ddydd, 'Fe sych bob deigryn o'u llygaid hwy, ac ni bydd marwolaeth mwyach, na galar na llefain na phoen. Y mae'r pethau cyntaf wedi mynd heibio' (Datguddiad 21:4).

Dyna'r gorau y gallaf ei gynnig ichi.

Na, darllenwch hynny eto. Dyna'r *gorau* yn wir, ac *fe allaf* ei gynnig i chi.

# Rhifyn Ionawr 2022 o'r *Traethodydd*

A ninnau wedi gorfod ymgyfarwyddo erbyn hyn â'r amrywiolyn Omicron, gobeithio y bydd cynnwys rhifyn Ionawr o'r *Traethodydd* yn gwrthbwyso'r anawsterau gan godi ein calonnau ar ddechrau 2022. Amrywiaeth sydd gennym eto ar eich cyfer, yn gerddi, ysgrifau, yn adolygiadau gan gyfranwyr cyfarwydd a rhai newydd. Y beirdd, fel arfer, sy'n agor y rhifyn hwn, Mary Burdett-Jones ynghyd ag enw newydd, sef Margriet Boleij, ac yna gadwyn o englynion gan Goronwy Wyn Owen. Ymfalchïwn fod *Y Traethodydd* yn parhau i roi lle teilwng i'n beirdd yn osgytal â'n rhyddieithwyr.

Ffrwyth cyfres o seminarau ar-lein a drefnwyd gan yr Eglwys yng Nghymru i ddathlu ei hetifeddiaeth yw'r ddwy ysgrif gyntaf, y naill gan A. Cynfael Lake yn tafoli o'r newydd *Gweledigaethau'r Bardd Cwsg* gan Ellis Wynne, a'r llall gan Huw Pryce yn trafod *Drych y Prif Oesoedd* gan Theophilus Evans.


Dau o ryddieithwyr pennaf y ddeunawfed ganrif oedd yr awduron hyn: Ellis Wynne yn frodor o Ardudwy, Sir Feirionnydd, a Theophilus yn hanu o Ddyffryn Teifi, er iddo dreulio'r rhan fwyaf o'i yrfa yn Sir Frycheiniog. Pan aeth y Bardd Cwsg 'ryw brynhawngwaith teg o ha' hirfelyn tesog' i un o fynyddoedd Cymru â'i sbienddrych yn ei law, gwelodd bethau rhyfedd, sef cwirciau ei gyd-fforddolion yn y byd, dirgelion angau ac yna rai o drigolion uffern, sef yr anffodusion a gosbwyd yn y Farn. Waeth pa mor effeithiol, neu aneffeithiol, yr oedd yr awdur yn ei amcan o gymell edifeirwch yn ei ddarllenwyr, creodd olygfeydd llachar o ddiangof a pheth o'r dychan mwyaf deifiol a welwyd yn llên Cymru erioed.

Os creadigaeth fwriadus y dychymyg yw'r *Gweledigaethau*, nid llai dychymyglawn yw'r *Drych*, er iddo honni bod yn llyfr hanes sobr, yn olrhain tras a champau'r Cymry yn y canrifoedd bore. Nod debyg oedd i'r ddau waith, sef galw'r Cymry yn ôl at eu Crëwr, trwy adferiad buchedd unigolion yn achos yr un, a thrwy ystyried eu natur fel cenedl sanctaidd, a freintiwyd gan Dduw, yn achos y llall. Fel y dywed Huw Pryce, 'iachawdwriaeth, rhagluniaeth a hanes' yw'r themâu sy'n clymu stori'r *Drych* ynghyd.

Beth bynnag am honiad Theophilus mai llunio llyfr hanes oedd ei amcan, dwy enghraifft o ysgrifennu creadigol athrylithgar oedd y ddau waith hwn, ac er iddynt gael eu llunio dair canrif yn ôl, mae ganddynt bethau crafog ac annisgwyl i'w dweud wrth ffolinebau'r unfed ganrif ar hugain. Darllenwch y ddwy ysgrif hyn, ac yna ewch yn ôl at y *Gweledigaethau* ac at y *Drych* a rhyfeddwch o'r newydd at eu gwerth.

Symud i'r ugeinfed ganrif a pheth o'r ganrif hon a wna Ieuan Parri mewn ysgrif ddiddorol ar 'y portread' mewn rhyddiaith Gymraeg. T. Gwynn Jones, E. Morgan Humpheys, D. Tecwyn Lloyd, Gwyn Thomas ac Angharad Price yw'r awduron dan sylw, ac astudiaeth loyw o'u dulliau nhw o dynnu portreadau geiriol medrus a chofiadwy o rai o'u cydnabod. Yn ogystal â hon, cawn gan Llion Wigley ail ran ei ymdriniaeth hynod ddarllenadwy o ymwneud rhai o Gymry amlwg yr ugeinfed ganrif â chrefyddau'r Dwyrain, 'Karma Cymraeg: Bwdiaeth, Hindŵaeth a'r Cymry, c. 1923–80', a'r olaf mewn cyfres gan Enid Morgan o ysgrifau a gyhoeddwyd gyntaf ar wefan Cristnogaeth 21.

Pe na bai hyn yn ddigon o arlwy, ceir adolygiadau gan Dafydd Morgan Lewis ar rai o *Gyfrolau Cenedl* Dafydd Glyn Jones,




Gareth Evans-Jones ar waith diweddar Simon Brooks, *Hanes Cymry: Lleiafrifoedd Ethnig a'r Gwareiddiad Cymraeg*, a Rhiannon Ifans ar olygiad newydd Cynfael Lake ar *Anterliwt y Ddau Gyfamod* gan Elis y Cowper, sy'n dod â ni'n dwt yn ôl at lên y ddeunawfed ganrif.

Darllenwch, felly, y rhifyn cyfoethog hwn o'r *Traethodydd*, ac yn well fyth, tanysgrifiwch i'r hynaf a'r mwyaf sylweddol o gylchgronau'r diwylliant Cymraeg. Wedi'i argraffu gan Wasg Gomer, Llandysul, gellir ei archebu ar lein trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar Twitter ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch ag Alice Williams (alice@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

# Nadolig Ysgol Sul Rehoboth, Prestatyn

Yn dilyn y canllawiau yn ystod Covid, fe gafodd Ysgol Sul Rehoboth, Prestatyn, wasanaeth Nadolig ychydig yn wahanol. Yn lle bod yn y capel, fe berfformiwyd y stori yn Fferm y Gop, Trelawnyd, sef cartref Meilir ac Amy Jones a'u tri o blant. Elis, eu mab ieuengaf dri mis oed, gafodd y brif ran o chwarae'r baban Iesu, a'r rhannau eraill yn cael eu chwarae gan ddisgyblion yr ysgol Sul a'u ffrindiau. Oherwydd bod rhan o'r fferm yn stablau, cafodd Mair deithio ar gefn geffyl bach Shetland, a wnaeth ei waith yn wych. Gyda'r haul yn machlud yn y cefndir, cafodd y gynulleidfa eistedd ar fyrnau gwair i fwynhau mins peis a diodydd poeth mewn awyrgylch bendigedig.

*Gareth Hughes*





# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## ‘Yng nghyngor Tri yn Un’

**Darllen** Salm 29

**Gweddi**

Abba Dad, addolwn di. Diolch am ddyfodiad Mab Duw i’n byd ac i’th Air wisgo cnawd a rhannu ein natur heb rannu ein pechod. Drwy ddŵr ei fedydd yn yr Iorddonen, uniaethodd Ef ei hun â ni fel hil. Caniatâ i ni glywed llais dy Ysbryd Glân yn tystio mai ‘hwn yw fy Mab’. Dysg ni i fod yn fodlon ynddo Ef ac i ymhyfrydu, heb gywilyddio, yn yr Arglwydd Iesu Grist. Amen.

**Emyn 527** ‘Cyn llunio’r byd’

**Cyflwyniad**

Un gôl oedd ei hangen ar dîm pêl-droed Cymru wedi iddynt fynd ar ei hôl hi yn erbyn Gwlad Belg. A do, sgoriwyd y gôl angenrheidiol gan Kieffer Moore toc wedi’r hanner awr. O’r herwydd, fe gaiff Cymru wynebu dwy gêm arall cyn ennill eu lle yng Nghwpan y Byd am y tro cyntaf ers 1958!

Gellir crynhoi’r digwyddiad mewn brawddeg. Ond, i gefnogwyr Cymru, bydd y breuddwydion, yr arwyddocâd, y posibiliadau a’r cyfleoedd sy’n agor i’r tîm yn ddi-ben-draw!

Gellir adrodd hanes bedydd Iesu Grist mewn dwy adnod. Ond, i ‘dyrfa fawr na allai neb ei rhifo’, bydd tragwyddoldeb yn rhy fyr i ddweud yn iawn amdano.

Wrth i ni droi at ein darlleniad, gadewch i’n dychymyg gartrefu yn y digwyddiad fel y medrwn ddirnad arwyddocâd bedydd Iesu o’r newydd.

**Darlleniad** Luc 3:15–22

**Myfyrdod**

O fewn y ddwy adnod hon cyhoeddir hanfod a dirgelwch ein ffydd.

‘Agorwyd y nef,’ meddai Luc. Y nef, preswylfa Duw a ‘man’ na allwn fel meidrolion nesu ato. Y nef, nad oes hawl gennym fel gwrthryfelwyr i geisio mynediad iddi. Y nefoedd, cartref y Sanctaidd Un, lle mae ein crëwr yn preswylio mewn disgleirdeb a goleuni anhygyrch. Y nef a’i hysblander byw, a ninnau mewn trueni’n trengi.

Ar enedigaeth Iesu ymunodd llu’r nef i ddatgan ei ogoniant, ac yn awr, ar ddechrau ei weinidogaeth gyhoeddus, ‘agorwyd y nef’ a disgynnodd yr Ysbryd Glân. Crëwyd hollt, trwy ras Duw, i’w ras lifo atom. Ymhen tair blynedd, adeg ei groeshoeliad, wrth i Iesu ddod yn bridwerth dros bechod y byd, byddai’r cysegr sancteiddiolaf yn cael ei rwygo’n agored. Yn Iesu agorir y nef a rhyddheir nerthoedd tragwyddol gras a chariad megis dilyw.

‘Ti yw fy Mab,’ meddai llais y Tad o’r gogoniant. Nid dechrau perthynas rhwng Iesu a’r Tad a gyhoeddir ar awr ei fedydd. Cyhoeddi perthynas y Tad a’r Mab, perthynas a fodolai o dragwyddoldeb, a wneir. Ef, yr ‘Anwylyd’ a drigai ym mynwes y Tad ac a’i gwnaeth yn hysbys, yw’r un hefyd y gorffwys bodlonrwydd, ewyllys da, ffafr Duw yn ei gyflawnder, arno. Ef yw’r Mab (Salm 2:7), i’r hwn y perthyn y llywodraeth, yr awdurdod a’r frenhiniaeth. Ef yw’r Gwas a ddewiswyd (Eseia 42:1) i ddwyn cyfiawnder a barn i’r ynysoedd ac i genhedloedd y byd. Nid yw’n fostfawr nac yn uchel ei gloch. Nid yw’n ormesol nac yn ddifaol. Ef yw’r un sy’n anadlu bywyd ar y llin sy’n mygu ac yn cadarnhau’r gorsen ysig. Nid rhyfedd i’r Ysbryd Glân ymddangos a disgyn arno ar ffurf colomen dyner.

Yn y bedydd cyhoeddir hanfod Trindodaidd ein ffydd. Mae’r Tad a’r Mab a’r Ysbryd Glân ar waith drwy Iesu Grist. Mae’r athrawiaeth yn un heriol i ni, ac yn gofyn am feddwl dwys a chlir i ddechrau ei hamgyffred. Ond adeg ei fedydd cawn gipolwg ar fwriadau’r Hollalluog. Clywyd llais y Tad, gwelwyd darostyngiad y Mab a chawn ein cyflwyno i natur a gwaith yr Ysbryd Glân. Cawn gipolwg ar fwriadau tragwyddol Duw i ethol Meichiau cyn bod dyled, i drefnu meddyg cyn bod clwyf, i garu gelyn heb un haeddiant.

Ac wrth i Iesu, Mab Duw, drwy ei fedydd uniaethu ei hun â dynolryw egwan, deallwn ei fod wedi dod i’n codi a’n gwneud yn etifeddion nef.

A gwelir hefyd batrwm o sail ffydd a gobaith y Cristion.

Yn ei fedydd cyhoeddir perthynas trwy air Duw. Drwy’r Ysbryd Glân cadarnheir perthynas.

Wrth gwrs bod gwahaniaethau: mae Iesu’n Fab Duw yn ei hanfod, ers tragwyddoldeb. Cyhoeddodd yr Arglwydd o’r uchelder mai mab Duw ydoedd, Aer y nefoedd, Duw’r lluoedd a dim llai.

Ond trwy Air Duw a gweithgarwch yr Ysbryd Glân fe ddown ninnau i fod yn blant i Dduw, drwy fabwysiad.

Dewch i’r dyfroedd, bob un y mae syched arno, meddai Gair Duw. Pwy bynnag sy’n sychedig, deued ataf fi ac yfed, meddai Iesu. Ni wrthodir unrhyw un sy’n ymostwng mewn edifeirwch ac sy’n derbyn llywodraeth Iesu ar ei fywyd. Effeithiolrwydd Gair Duw yw ei fod yn ein denu ato ac yn ein sicrhau bod croeso gerbron y Tad drwy Iesu.

Rhodd Duw i orffwys ynom, yn sêl, yn flaenffrwyth, yn dystiolaeth fewnol i realiti ein perthynas newydd yw fod yr Ysbryd Glân yn cynhyrfu ynom sicrwydd ffydd a rhyfeddod at ei ras. Cawn dystiolaeth ein bod wedi ein derbyn, bod gras Duw wedi ein cofleidio. Llefwn, ‘Abba, Dad’ drwy’r Ysbryd. Un o’r arwyddion cyntaf fod yr Ysbryd Glân yn cartrefu ynom yw ein hawydd i fyw bywydau ‘glân’. Arwydd amlwg arall yw ein dyhead ninnau i ddweud ‘Amen’ gorfoleddus i ddatganiad y Tad adeg bedydd Iesu. Gallwn ninnau hefyd floeddio ein mawl: ‘Hwn yw dy Fab, yr Anwylyd. Arglwydd, mae fy modlonrwydd ynot, fy llawenydd ynot, fy ngobaith oll yn tarddu ohonot ti. Arglwydd, addolaf di.’

**Gweddi**

Arglwydd Dduw, pan oedd tywyllwch yn gorchuddio’r byd, diolchwn i ti fod dy Ysbryd Glân yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd. Diolch mai drwy dy Air y crëwyd popeth sydd yn y ffurfafen, ar y ddaear a than y ddaear. Diolch fod pob dim yn bodoli ynot, er dy fwyn, ac mai ynot ti y mae pob un dim yn cydsefyll. Diolch fod dy Fab wedi dod i’n byd yng Nghrist. Diolch dy fod yn fodlon ynddo. Diolch fod Mab Duw wedi dod yn isel ei fryd er mwyn dyrchafu ein hiliogaeth, a oedd, ac sydd, mewn trueni’n gorwedd. Diolch fod dy air a’th dystiolaeth i’w clywed ym mhob datganiad o’r efengyl. Diolch fod dy Ysbryd Glân yn parhau i dystio i Iesu, i fywhau ei eiriau, i ymgartrefu yng nghalonnau ei bobl.

Arglwydd, pâr yn wir i ni glywed dy air a’th dystiolaeth i’th Fab, drwy allu’r Ysbryd Glân, drachefn yn ein calonnau, ein cynulleidfaoedd, ein cymunedau a’n cenedl. Amen.

**Emyn 351** ‘Crist sydd yn frenin’

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru